tafod elái

www.tafelai.com

Tachwedd 2001 | Pris 40c | Rhif 162

AMSER MAITH YMLAEN

Llongyfarchiadau i Ysgol Gyfun Rhydfelen am gyflwyno campwaith o gynhyrchiad o'r ddrama gerdd gan Caryl Parry Jones a Tony Llywelyn. Roedd yr Ysgol wedi defnyddio adnoddau proffesiynol y Miwni i greu naws arbennig ac agos. Ar adegau roedd Haman yn bygwth a dychryn rhai yn seddi flaen y gynulleidfa! Aeth y sioe o gyfnod 2099 yn y dyfodol yn ôl i 1904 a 1955 drwy gyfrwng y peiriant amser a creuwyd naws arbennig y cyfnodau drwy'r dawnsio a'r canu.

Cynhyrchiad arbennig arall yn dilyn traddodiad hir Ysgol Gyfun Rhydfelen

Diweddglo sioe gerdd Ysgol Rhydfelen. Rhagor o luniau ar y dudalen cefn

Gweinidog Addysg yn Anerch Menter Iaith

Wrth anerch Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Rhondda Cynon Taf dywedodd Jane Davidson, Gweinidog Addysg y Cynulliad, fod y Fenter Iaith yn adnodd gwerthfawr iawn ym mywyd Rhondda Cynon Taf a bod angen rhoi cyfle i bawb i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Jane Davidson A.C. Yng Nghyfarfod Blynyddol Menter Iaith

Bu ar ymweliad â Chanada yn yr haf ac fe'i syfrdanwyd gan y ddarpariaeth ddwyieithog - Ffrangeg a Saesneg yn nhalaith New Brunswick ac ymrwymiad cryf y llywodraeth i sicrhau fod dwyieithrwydd yn llwyddo. Roedd hefyd wedi ei chalonogi gan frwdfrydedd y trigolion i ddysgu ail iaith.

Roedd am weld amryw o gyfleoedd yn ystod gyrfa addysg plentyn lle y gall ddewis dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Fel cyn-athrawes roedd yn hollol ymwybodol o'r angen am hyfforddiant ac anogaeth i'r proffesiwn addysg ac roedd am wneud y Gymraeg yn bleser i'w defnyddio yn y Gymuned.

RHAGLEN LAWN YR ŴYL DDRAMA

Cynhelir 16eg Gŵyl Ddrama Tafod Elái yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref ar nos Fawrth, Mercher, Iau a Gwener, 20 i 23 Tachwedd. Y beirniad eleni yw Ifan Huw Dafydd (Dic Deryn) ac yn barod mae wyth cynhyrchiad yn cael eu paratoi. Mae'r nosweithiau yn Neuadd Dowlais (rhwng y Ship a'r Crown ar y ffordd i Efail Isaf) yn gyfle i fwynhau gwledd o adloniant Cymraeg ac i gymdeithasu dros baned. Mae croeso hefyd i ddysgwyr a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Am wybodaeth pellach am yr ŵyl neu am docynnau ffoniwch Colin Williams: 029 20890979.

YSGOL PONT SIÔN NORTON YN 50

Sioe Gerdd
yn Ysgol Gyfun Coedylan
Tachwedd 27 – 29
Tocynnau: 01443 486838

tafodelái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
029 20811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Rhagfyr 2001
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
22 Tachwedd 2001

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com
e-bost
pentyrch@tesco.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
Www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

Cyfarfod Blynyddol Tafod Elái

Roedd hi'n noson dawel yng Nghlwb y Bont ac ni chynhyrfwyd y dyfroedd gan y criw bach iawn ddaeth i drafod dyfodol eich papur bro ar ddechrau mis Hydref.

Mae dros 50 o bobl yn cynorthwyo i gasglu newyddion a dosbarthu'r papur bob mis felly mae gweithgarwch sylweddol tu ôl i'r tudalennau. Diolchwyd i bob un ohonynt am barhau gyda'r gwaith.

Mae angen gwaed ifanc newydd o hyd a chroesawn unrhyw un i'n cynorthwyo. Ffoniwch neu e-bostiwch y Golygydd yn fuan.

CLWB Y DWRLYN

Noson y Llywydd
Sgwrs gan
Arwel Ellis Owen
8pm Nos Wener,
Tachwedd 2
Caffe'r Bay Tree,
Bae Caerdydd

Brethyn Cartref
Beirniad: Geraint Hughes
8pm Nos Wener, Rhagfyr 7
Kings Arms, Pentyrch

Ffôn 029 20891426

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch

Bowlio Deg
Nos Wener
16eg Tachwedd

CINIO NADOLIG
yn Llangeinor
Nos Wener 7ed Rhagfyr

Cytgordwyr
John Llewellyn Thomas 01443 218077
Bryn Roberts 01443 208211

CYLCH CADWGAN

JOHN OGWEN A MAUREEN RHYS
Darlith-gyflwyniad
"Cnoc, cnoc! Pwy sy' 'na?"
8pm Nos Wener,
Tachwedd 9, 2001
Yn Festri Bethlehem
Gwaelod y Garth
Am ddim.
Gyda chymorth yr academi

16eg Gŵyl Ddrama Tafod Elái 2001

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre.
(Rhwng y Ship a'r Crown)
Beirniad: Ifan Huw Dafydd (Dic Deryn)

	Nos Fawrth 20.11.01	Nos Fercher 21.11.01	Nos Iau 22.11.01	Nos Wener 23.11.01
7.00	Ysgol Ystalyfera	Rascals	Ysgol Llanhari	Athrawon Plasmawr
8.00	Dawnswyr Nantgarw	Ysgol Plasmawr	Ysgol Glan Taf	Tafodau Salem
9.00	Parti'r Efail	Merched y Wawr Y Garth	Panto Llanhari	Beirniadaeth a Chyflwyno Tlysau

Tocynnau £2.00 y noson £1 Henoed a phlant

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL CWMLAI

Ar ôl ymddeoliad Mr David Jones fel Prifathro cyn gwyliau'r haf, mae olynydd iddo wedi ei apwyntio sef Mrs Sue Williams o Lanilltud Faerdre. Bydd Mrs Williams yn dechre yn ei swydd newydd ar ôl gwyliau Nadolig, dymuniadau gorau iddi.

PENBLWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mary Church ar ei phenblwydd yn 96 oed ar 15fed o Hydref. Mae Mary yn byw yn Llysyrefail yn Stryd Uchaf y Ton. Hyd yn ddiweddar bu yn ffyddlon Yng Nghapel y Ton yn anffodus dydy ei golwg ddim fel y bu. Bendithion lu iddi.

MEITHRIN THOMASTOWN.

Mae llewyrch yn dal yn y Feithrin yn Thomastown er nad oes cymaint ag arfer yno ond mae yna obaith fydd yna ragor yn dod ar ôl gwyliau Nadolig. Diolch i Mrs Jan Richards a'i chynorthwywyr am ei gwaith da.

MRS SAL EVANS.

Mae Mrs Sal Evans sydd yn 101 oed yn dal yn yr ysbyty ond mae yna obaith y daw adre'n fuan i gartre henoed ym Mhentre'r Eglwys.Brodor o Dylchawen Tonyrefail yw Sal.

BONEDDIGION Y GÂN.

Bu nos Sadwrn y 6ed o fis Hydref yn noson fawr i'r côr bechgyn gyda'i harweinydd Mr Richard Williams yn dathlu ei hanner canrif o fodolaeth yn Neuadd Hamdden Llantrisant, roedd y neuadd yn llawn a phob tocyn wedi ei werthu ymlaen llaw.

Ym mis Ebrill 1951 aeth Richard ati gyda chymorth pump arall o'r teulu i ffurfio grŵp o fechgyn i ganu. Yn ôl cofnodion swyddogol pwyllgor ar Fai 3edd 1951 yng Ngwesty'r Ely cynhaliwyd pleidlais i benderfynu enw i'r côr, erbyn hyn mae yn amlwg fod nifer aelodau wedi cynyddu ers 1951 am fod 25 yno ar y noson honno ac roedd yn bleidlais unfrydol i alw'r côr yn Boneddigion Y Gân (Gentlemen Songsters) a dyna ydi'r enw hyd heddiw. Doedd neb tybed wedi meddwl byddai'r côr yn bodoli heddiw ac o dan fatwn yr arweinydd gwreiddiol.

Maent wedi ymweld a llawer o wledydd tramor ynghyd â'r wlad yma. Mae Czechoslafacia yn un amlwg iawn ar Almaen, Denmarc, Awstria a Ffrainc. Maent wedi croesawu corau o Rwsia,California, China, Czechoslafacia, Seland Newydd, Awstria, Siapan, Denmarc ar Almaen.

Mae yna bobl amlwg wedi bod yn ddilynwyr selog o'r côr fel Cliff Morgan sydd yn gyn ddisgybl o Ysgol Ramadeg Tonyrefail fel ei gelwyd gynt, a phobl y cyfryngau fel Iwan Thomas, Wyn Calfin a llawer eraill.

Richard Williams

Roedd yn noson arbennig i Foneddigion Y Gân. Hefyd roedd yn anrhydedd i'r corau eraill sydd o dan Fatwn Richard sef Cantorion Richard Williams a Côr Plant Tonyrefail a fu yn cymryd rhan yn y dathlu ar y noson a hefyd côr plant iau sydd dan arweinyddiaeth Siân Murphy merch Richard, hyfryd weld y corau i gyd yn cyd ddathlu.

Unawdwyr ar y noson oedd Helen May merch i Richard ac mae hithau wedi codi i'r brig fel unawdydd ag yn gymdoges i ni yn Nhylchawen, ac yn dal yr ochr ddynol fel unawdydd oedd Marc Burrows mae yntau yn fab i'r tenor enwog Stewart Burrows. Mae Marc yn brysur dilyn ôl traed ei dad.

Gyda chorau da mae eisiau offerynwyr da a dyna lle mae Jonathan Griffiths yn ffitio i fewn, ef sydd yn cyfeilio i'r corau i gyd, bachgen o'r Ton yw Jonathan ag ef hefyd yn gymydog i ni yn Nhylchawen gyda'i wraig Heather ar ddwy ferch.

Ffrind agos i'r corau yw Ted Boyce a fu yn dathlu gyda'r corau ar y noson mae wedi bod ar y Radio a'r Teledu ers amser maith.

Rhyngddynt i gyd bu yn noson fythgofiadwy, ewch ymlaen am hanner canrif arall.

Boneddigion y Gân

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

ACHUB 350 O SWYDDI?
Mae undebau GEAES yn ymgyrchu i achub 350 o swyddi mewn ffatrïoedd yn Nantgarw, Bedwas a'r Coed Duon.

Yn sgîl y cyrchoedd terfysgol yn yr Unol Daleithiau ar Fedi 11 mae'r diwydiant awyrennau wedi ei daro'n ddifrifol. "Mae'r ffatri'n enwog oherwydd mae'n cynnal a chadw awyrennau o bob rhan o'r byd," meddai llefarydd ar ran yr undebau. "Ond y drafferth yw bod 40 y cant o'n gwaith ar gyfer un cwmni, hynny yw British Airways."

Yn y cyfamser, mae Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol wedi bod yn cwrdd i drafod yr argyfwng. Un opsiwn yw edrych ar sut y gall y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan gydweithio i leihau'r ergydion i'r diwydiant awyrennau.

£1,000 O DDIRWY
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafwyd dyn o Ffynnon Taf yn euog o ddeg trosedd o feddu ar nwyddau ffug gyda'r bwriad o'u gwerthu.

Cafodd Dean James, 42 oed o Dafarn yr Alarch, Heol Caerdydd, ddirwy o £1,000 a bu raid iddo dalu £734 o gostau. Roedd y nwyddau'n cynnwys cryno ddisgiau a siacedi.

O'R GWAELOD I'R TOP
Llongyfarchiadau i Jordan Goodwin o Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth sy wedi ei ddewis i chwarae i Dîm Pêl-droed Ysgolion Caerdydd.

"Mae'n aelod o Garfan Dan-12 Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd," meddai'r prifathro Gerwyn Williams "ac yn beldroediwr dawnus iawn."

Ym Mlwyddyn Chwech yr Uned Gymraeg mae Jordan. Pob lwc iddo.

CROESO
Croeso i Anwen Ebeneser (o Bow St) ac Iwan Ellis (o ardal Caernarfon) sydd wedi symud i Ffordd yr Afon, Gwaelod y Garth.

PENDERFYNU CASGLU I'R DEILLION
Eleni penderfynodd Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ddanfon eu casgliad cynhaeaf at Sefydliad y Deillion. Daeth Alison Larner i'r ysgol i sôn am waith y mudiad a bydd yn dod yn ôl ym mis Tachwedd i gasglu'r cyfanswm terfynol.

Synhwyrau oedd thema'r Gwasanaeth Diolchgarwch gafodd ei gynnal yng Nghapel Bethlehem ar Hydref 18. Cafwyd eitemau oddi wrth blant pob dosbarth ac roedd safon ac ymddygiad y plant yn arbennig o dda. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled.

YN EUOG O YMOSOD
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafwyd dyn o Ffynnon Taf yn euog o ymosod ar Steven Traylor.

Cafodd Brian Crane, 52 oed o Heol Caerdydd, ei orchymyn i wneud gwaith cymunedol am 150 o oriau a thalu iawndal o £500 i Mr Traylor. Fe'i cafwyd yn euog o achosi niwed corfforol.

DIGWYDDIAD UNIGRYW'N CODI £250
Diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth am fentro i drefnu digwyddiad gwahanol a gododd £250.

Ar Hydref 11 trefnodd cwmni Bobby Dazzlers noson yn Neuadd y Pentre, Gwaelod-y-Garth, lle dangoswyd dillad gaeaf am brisiau rhesymol. Diolch i rai o'r plant gafodd gyfle i fod yn fodel am noson a diolch i Bobbie'r Arth am fod yn bresennol.

UNO DAU DEULU
Llongyfarchiadau i Ceri Tudno Jones, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, ar ei ddyweddïad â Lee Flay o Poole, Swydd Dorset.

Mae rhieni Ceri, Elwyn a Mair Tudno Jones yn byw ym Mhendeulwyn, Bro Morgannwg.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Tachwedd 4: Y Gweinidog (Cymun); Tachwedd 11: Y Gweinidog; Tachwedd 18: Y Gweinidog; Tachwedd 25: Y Parchedig Hywel Mudd.

CYNGOR BRO Ffynnon Taf: gwahoddir pawb i fynychu Gwasanaeth Sul y Cofio ym Mynwent Tŷ Rhiw, ddydd Sul, Tachwedd 11, am hanner dydd.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH: Tachwedd 2: Gwasanaeth Dosbarth 3E; Tachwedd 27: Trip i Theatr y Sherman, Caerdydd, i wylio James and the Giant Peach; Rhagfyr 1: Ffair Nadolig Cymdeithas y Rhieni ac Athrawon; Rhagfyr 2: Cymdeithas y Rhieni ac Athrawon, Canu Carolau; Rhagfyr 12 a 13, Cyngherddau Nadolig; Rhagfyr 19: Disgo'r Plant; Rhagfyr 20: Sioe Hud; Rhagfyr 21: diwedd tymor.

MARW VIOLET DAVIES
Ar ôl cystudd byr bu farw Vi, o Fryncoch, Ffynnon Taf, mam Lynne a Robin, mam-yng-nghyfaith Clive a mam-gu Nicola a Ceri.

Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Carys a Dean Evans ar enedigaeth Indeg Melangell, chwaer i Teilo ac wyres newydd i John a Margaret Evans Danybryn a Bob a Llinos Swain Llantrisant. Er ei fod bellach yn byw ym Mhorthcawl un o blant Gilfach yw Dean. Croeso cynnes i Indeg.

GWYLIAU HAPUS
Mae pawb yn hapus i glywed fod Laura Price yn paratoi i fynd ar wyliau. Blwyddyn a hanner yn ôl, ym mis Mawrth 2000 cafodd Laura, sydd yn 13 oed, y newyddion trist fod ganddi diwmor ar yr ymennydd. Cafodd lawdriniaeth i dynnu'r tiwmor ond yn anffodus wedi'r llawdriniaeth collodd ei golwg . Roedd pawb yn flin i glywed y newydd trist, ac aeth pobl Gilfach a Thonyrefail ati i godi arian i brynu cyfrifiadur Braille arbennig iddi. Pan ddychwelodd i'r ysgol dysgodd braille mewn tridiau yn lle'r tair wythnos arferol.

Roedd pawb yn yr ysgol, sef Ysgol Tonyrefail yn edmygu ei dewrder a'i phenderfyniad i oresgyn ei anabledd a derbyniodd wobr arbennig "The Child of Achievement" ac fel rhan o'r wobr, mae hi a'i theulu a'i ffrind gorau Sarah Rowland yn paratoi i fynd ar wyliau arbennig i'r Eidal. Dymuniadau gorau iddynt, a gobeithio y caiff Laura wyliau i'w gofio gan ei bod yn ei haeddu am ei dewrder. Dymuniadau gorau Laura.

GWASANAETH ARBENNIG
Cynhaliwyd Gwasanaeth Arbennig yn Ysgol Gynradd Abercerdin Dydd Gwener Hydref 19ed pan cyflwynwyd "Gwobr Buddsoddi Mewn Pobl" i'r brifathrawes Mrs Millicent Phillips am feithrin pawb sy'n gweithio yn yr ysgol. Mr Chris Rooney gyflwynodd y wobr. Cyflwynwyd Mr Rooney i'r Gynulleidfa gan Mr Richard Landy Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol Rhondda Cynon Taf. Soniodd Mr Landy am ymroddiad Ysgol Abercerdin a'r gwaith da sy'n cael ei wneud yno a chanmolodd yr ysgol yn fawr iawn. Roedd yn rhaid i'r ysgol ateb gofynion 12 criteria i gael y wobr.

Roedd Mr Greg Owens Ymgynghorydd Addysg Gynradd hefyd yn bresennol er mwyn cyflwyno Plac Gwobr Ansawdd i'r ysgol am lwyddo yn y medrau sylfaenol. Llongyfarchiadau i Mrs Phillips ac i Ysgol Gynradd Abercerdin.

CYNGERDD CYSEGREDIG
Mae cynrychiolwyr addoldai'r cwm wedi bod wrthi'n trefnu Dathliad Cymunedol ar gyfer y Nadolig. Cynhelir yr ŵyl yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Nhre Ifan Nos lau Tachwedd 29. Pan fydd Cantorion Tref y Rhyg, Côr Cymunedol Gilfach Goch a Sali Ann Jones y delynores yn cymryd rhan, felly cadwch y noson yn rhydd, a dewch yn llu.

FFYNNON TAF, NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

£400 O DDIRWY
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Nantgarw ddirwy o £400 am yrru car heb drwydded, yswiriant na thystysgrif MoT. Bu raid i Douglas Harries, 33 oed o Heol-y-Dderwen, dalu costau o £35.

MARW FLORENCE MIST
Yn dawel yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, bu farw Florence, yn gynt o Dŷ Rhiw, Ffynnon Taf, gwraig y diweddar Will, mam Bob, Roger a'r diweddar Peter, a mam-yng-nghyfraith Dorothy a Valerie.

Roedd y gwasanaeth yn Eglwys Unedig Ffynnon Taf a'r traddodiant ym Mynwent Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Croeso.
Croeso mawr i Dafydd Iolo Davies, dirprwy newydd yr ysgol. Croeso hefyd i 20 o blant bach newydd i'r feithrin. Braf yw croesawu dwy cyn-ddisgybl sef Bethan Jenkins a Catherine Thompson, myfyrwyr yng ngholeg Penybont. Bydd y ddwy yn treulio'u hamser yn nosbarthiadau'r Babanod.

Priodas
Llongyfarchiadau i'n hysgrifenyddes, Pam Stallard, ar ei phriodas ym mis Awst. Dymuniadau gorau i Pam a'i gŵr Mark.

Llangrannog.
Bu criw o blant blynyddoedd 5 a 6 a'r athrawon yn mynychu cwrs Llangrannog ar benwythnos Hydref 5-7. Cafodd pawb amser da iawn.

Cwmni Rascals.
Bu Dawn Williams a Rhian Grundy o gwmni Rascals yn cynnal gweithdy Drama yn yr ysgol i blant blynyddoedd 2-6. Diolch am brynhawn hwyliog a buddiol.

Sioe Gerdd Rhydfelen.
Ar ddydd Iau, Hydref 18, aeth plant blynyddoedd 5 a 6 i weld sioe gerdd Rhydfelen yn y Miwni ym Mhontypridd.

Gwasanaeth Diolchgarwch.
Eleni dewiswyd casglu arian tuag at glefyd y siwgr a bu Margaret Knight yn ymweld â'r ysgol i baratoi'r plant ac i godi ymwybyddiaeth am y clefyd.

Yn ystod y gwasanaeth diolchgarwch ar ddydd Gwener, Hydref 19 daeth Mrs M. Knight i dderbyn rhodd plant yr ysgol. Casglwyd dros £600 ar gyfer yr elusen Clefyd y Siwgr. Diolch i bawb.

Sioe Ffasiynau.
Cynhelir sioe ffasiynau yn neuadd yr ysgol ar nos Iau Tachwedd 8.Croeso i bawb.

Ysgol Creigiau

Llangrannog
Fe aeth plant blwyddyn 5 a 6 i Langrannog am y penwythnos. Cafodd pawb amser da er gwaethaf y tywydd, ond mwynhaodd pawb y gweithgareddau. Pan ddaethon ni nôl roedd pawb wedi blino. Mwynheuodd yr athrawon y gweithgareddau hefyd!

Ogwr
Aeth rhai plant o Blwyddyn 5 a 6 i Ogwr ar gwrs Celf. Gadawon nhw ddydd Mercher a dychwelyd ddydd Gwener. Roedd pawb wedi cael amser da ac roedd Mrs Lambert wedi mwynhau hefyd. Pan ddaethon nhw nôl, roedd gan bawb luniau a modelau prydferth. Roedd pawb wedi blino'n rhacs pan ddaethon nhw nôl!

Techniquest
Pan aeth y plant i Ogwr aeth y plant oedd ar ôl i Techniquest a mwynhau hefyd. Fe ddysgodd y plant lawer am Ddefnyddiau - yn y ddarlithfa ac yn yr arddangosfa. Wythnos neu ddwy ar ôl hynny aeth Dosbarth 4 i Techniquest! Fe ddysgon nhw ffeithiau am Y Corff.

Cyfrifiaduron Newydd
Fe gafodd yr ysgol 4 cyfrifiadur newydd. Fe aeth 3 i'r adran Saesneg ac fe gafodd Dosbarth 5 yr un arall. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu ddefnyddio.

Gwasanaeth Diolchgarwch
Ddydd Gwener 12ed roedd yna wasanaeth arbennig yn yr ysgol, lle daeth pawb a bwyd i mewn i fynd i Croatia. Fe ddaeth Barry Shires o Care Cymru i esbonio gwaith yr elusen ac i ganu i ni.

Croeso
Croeso i Michael Simmonds yn Class 9 a'i frawd a chwaer yn Class 3 a Class 8.

Pêl Droed
Chwaraeon ni gem bêl droed yn erbyn Pentyrch. Roedd hi'n gem dda ac roedd pawb wedi mwynhau.Enillon ni 5- 0. Hefyd chwaraeon ni gem dda yn erbyn Trefforest ac enillon ni 2-1. Diolch i Mr Evans am ein hyfforddi ni.

Cerddwyr Cwm Clydach
Crwydro a theithio

Mae'r grŵp yn cael ei arwain gan gerddwyr profiadol ond nid yw yn rhan o 'Gymdeithas y Cerddwyr'. Clwb cymunedol ydym sy'n mynd ar gylchdaith bob pythefnos, fel arfer yn gadael am 9.30 bore Sadwrn o Sgwâr Ynysybwl. Does dim ffurfioldeb yn agos i'r 30 ohonom sy'n cerdded, hynny yw does dim tâl aelodaeth, dim cardiau aelodaeth, dim ysgrifennydd, dim cadeirydd, dim trysorydd, h.y. absenoldeb cyfan gwbl o 'Glefyd y Cymry - Pwllgoritis'. Mae yna dri neu bedwar o Gymry Cymraeg ac mae croeso cynnes i fwy ohonoch i ymuno â'r criw. Mae angen dillad ac esgidiau addas wrth gwrs gan fod y dirwedd a'r hinsawdd mor newidiol. Fel arfer i ni nôl yn y pentref erbyn canol y prynhawn. Byddwn yn gadael y Sgwâr, Ynysybwl 9.30 y bore, Dydd Sadwrn, 3 o Dachwedd, 2001 y tro nesaf. Taith o'r pentref i gyfeiriad Cilfynydd, yna i'r gogledd heibio i'r cwrs golff i bentref Abercynon. Ymborth mewn tafarn cyfleus cyn dychwelyd yn ôl erbyn amser te. 17/11/01: Maerdy - Ynysybwl. Cysylltwch â Rowland Hammett 01443 790903 am fanylion neu darllenwch Tafod Elái!

Ffair lyfrau a J.M. Textiles
Yn ystod y ddwy noson agored cawsom ffair lyfrau llwyddiannus yn neuadd yr ysgol. Braf oedd gweld cymaint o brynu llyfrau Cymraeg a Saesneg. Roedd J.M. Textiles yn yr ysgol yn gwerthu dillad ysgol hefyd.

Cyfeillion yr Ysgol
Diolch o galon i'r bobl sydd wedi gwirfoddoli i fod ar Bwyllgor Cyfeillion yr Ysgol. Oherwydd hynny, cawsom Ddisgo Calan Gaeaf iasol gyda phawb wedi gwneud ymdrech lew i wisgo'n addas. Rydym yn edrych ymlaen nawr at y gweithgareddau eraill.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Ysgol Evan James.
Llongyfarchiadau i Lisa Goodwin a'i phartner, Stuart ar enedigaeth merch fach, Sali ar 11eg o Hydref.

Ymwelodd Mr Brian Davies, Curadur yr Amgueddfa a Dosbarthiadau 9-15 i sôn am y Celtiaid.

Daeth Mr Emrys Evans i'r ysgol i dderbyn siec am £260 i Apêl Arch Noa. Casglwyd yr arian yn y Gwasanaeth Cynhaeaf.

Aeth Dosbarthiadau 12 a 13 ar ymweliad â Chanolfan Amgylcheddol Cilfynydd.

Trist yw ffarwelio a Derryn a Tyler Fox sy'n symud i fyw i Dde Affrig.Pob hwyl iddynt.

Aeth y pedwar dosbarth hyna' i'r Miwni i weld sioe Ysgol Gyfun Rhydfelen "amser maith ymlaen".Roedd y plant wrth eu bodd yn gweld cynifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn y cast. Llongyfarchiadau!

Cafodd plant Blwyddyn 2 dipyn o syrpreis pan aethant ar drip i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Ar ôl cyrraedd cawsant wybod taw yn eu mysg oedd y miliynfed ymwelydd a'r Amgueddfa ers iddynt agor eu drysau yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd ym Mis Ebrill.Cyflwynwyd dau ddisgybl, Megan Lloyd Griffiths a Luke Perrott a'i hathrawes, Miss Jayne Rees i Weinidog Diwylliant y Cynulliad,Jenny Randerson. Derbynion nhw lyfrau celf yn anrheg i'r ysgol ac fe gafodd bob plentyn arian i'w wario yn siop yr Amgueddfa. Diwrnod i'w gofio.

Pob dymuniad da i Brefni Heymann sy'n symud i Ysgol Tonyrefail.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TON-YR-EFAIL

Bu'r hanner tymor hwn yn un prysur iawn yn yr ysgol. Ar y cychwyn aeth plant blynyddoedd 5 a 6 gyda phedwar o'r athrawon, Mr E. John, Mrs G. Nadini, Mr E. Lloyd a Mr M Rees am benwythnos i Langrannog. Cawsant dywydd braf a chyfle i wneud yr holl weithgareddau, marchogaeth, sgïo, nofio, cerdded a thrafod beiciau modur, gyda'r canlyniad aeth yr amser heibio yn llawer rhy gyflym.

Ymwelodd y tîm rygbi ag Ysgol Evan James. Colli bu eu hanes gyda'r sgôr yn 30 i 20. Ond pa wahaniaeth gan y rhoddodd pob un o'i orau. Gyda llaw y tri sgoriodd bwyntiau oedd Daniel Bourge, Alex Whitehead a Dylan Pope.

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch y Cynhaeaf yn neuadd yr Ysgol eleni ac y mae'n rhaid dweud yr oedd yno naws gartrefol. Y Parchedig Robin Samuel, Pen-y-bont, oedd y siaradwr gwadd ar ran Cymorth Cristnogol. Casglodd yr adran Iau £100 tuag at yr achos. Cadwodd y babanod at yr hen draddodiad o ddod â ffrwythau i'r henoed ac fe'u dosbarthwyd rhwng Gelli Seren a'r Ganolfan Ddydd sydd drws nesaf i'r Ysgol.

Ni fu'r gymdeithas rieni ac athrawon yn dawel ychwaith. Ar Hydref 7ed cynhaliwyd helfa drysor. Yr enillwyr oedd Mrs N. Seldon a Mrs D. Brooks. Ar ôl crwydro'r ardal yn casglu gwahanol wrthrychau daeth pawb yn ôl i'r neuadd i fwynhau pasteiod o ffrwythau'r Hydref wedi eu gorchuddio â hufen. Yr oedd yn brynhawn llwyddiannus a diolch i bawb a fu wrthi'n trefnu.
Rhaid diolch hefyd i Seasons Holidays am noddi dillad newydd y tîm rygbi.

Ysgol Tonyrefail yn Llangrannog

Ysgol Heol y Celyn

I ddechrau y mis yma rwyf am sôn am lwyddiant y tîm athletau, sydd wedi llwyddo i fynd trwodd i'r rownd derfynol sydd yn Llantrisant ar Dachwedd y 23ain. Mae'r tîm wedi ennill dwy rownd yn llwyddiannus i gyrraedd y rownd derfynol . Felly pob lwc i'r tîm yn y rownd derfynol, sef Nathan Evans, Laura Scarfe, Andrew Birch, Laura Richards, Rhys Batten, Lauren Comins, Nathan Cox, Leah Richards, Scott Morgan, Leigh Davies, Matthew Webber a Chamaine Barnhouse.

Gallwn ddiolch i Miss Griffith am hyfforddi'r plant ond yn ogystal i Mr Colin Daley sydd yn hyfforddwr Athletau proffesiynol sydd wedi bod yn dod i'r ysgol yn wythnosol i weithio gyda'r plant.

Rygbi
Mae tîm rygbi'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus y mis yma hefyd. Bu i'r ddau dim guro Ysgol Gynradd Caradog o Aberdar. Enillodd Tîm A o 15-14 ac enillodd Tîm B o 24-0. Bydd `Taff Ely Schools Rugby Initiative' yn dechrau yn yr ysgol ar ôl hanner tymor, a byddant yn gweithio gyda Blwyddyn 5. Nid yn unig y plant sydd wedi bod yn brysur yn ymwneud â chwaraeon y mis yma ond y staff hefyd. Bu nifer o staff yr ysgol yn cwblhau eu hyfforddiant i gynnal clybiau Chwaraeon y Ddraig, a bydd clwb yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar ôl hanner tymor.

Tripiau
Mae nifer o ddisgyblion yn mynd ar dripiau ar ôl hanner tymor. Mae Blwyddyn 1 a 2 yn mynd i ymweld â Chastell Caerffili a bydd plant y Meithrin a'r Derbyn yn mynd ar drip i Sain Ffagan.

Ar Hydref y 17eg bu Blynyddoedd 5 a 6 yr Adran Gymraeg yn gweld Sioe Plant Rhydfelen ym Mhontypridd. Yn ôl pob sôn roedd y sioe yn wych a'r trip yn un llwyddiannus iawn. Bu Blynyddoedd 5 a 6 yr Adran Gymraeg yn Llangrannog hefyd am benwythnos, o'r holl hanesion yn amlwg bu i'r plant a'r athrawon fwynhau!

Y Cynhaeaf
Perfformiodd Blwyddyn 6 yr Adran Saesneg Wasanaeth Cynhaeaf ar ddydd Iau Hydref y 18ed, ac roedd ymateb ardderchog gan y plant a'r rhieni, da iawn.

I gloi y mis yma mae'r ysgol wedi ennill gwobr `Heartbeat Wales' a bydd Arweinydd y Cyngor Sir yn dod i'r ysgol i roi'r wobr ar Tachwedd y 9ed.

YSGOL GYFUN LLANHARI

Cyngerdd Showtime
Ar yr 20ed Hydref roedd dau fachgen o'r ysgol yn cymeryd rhan yn y gyngerdd "Showtime" yn Stadiwm y Mileniwm. Enwau'r bechgyn yw Aneurin Barnard o flwyddyn 10 a Rhys Lewis o flwyddyn 7. Roedd y ddau yn rhan o grŵp o tua 30 bachgen fu'n canu a dawnsio cân allan o sioe gerdd "Peter Pan".

Golff
Fe gymerodd Caitlin Thomas o flwyddyn 7 ran mewn twrnament Golff yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Y twrnament oedd cystadleuaeth Golff Merched De Cymru. Fe enillodd Caitlin y gystadleuaeth 9 twll.

Judo
Mae Mikaela Hood o flwyddyn 7 yn sgwad Judo Cymru. Cafodd hi gyfle i gystadlu yn nhîm Cymru yn Crystal Palace yn Llundain yn ystod mis Hydref. Ac roedd yn cystadlu yn Iwerddon ar 20ed Hydref.

Seiclo
Bu Eifion Weinzweig o flwyddyn 9 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Seiclo Ffordd y "British Schools Championships" yn Scarborough yn ystod mis Hydref. Mae Eifion yn cynrychioli Ysgol Gyfun Llanhari ond mae fel arfer yn seiclo yn nhîm Stadiwm Maindy yng Nghaerdydd. Fe enillodd Eifion "time trial" yn ddiweddar sef yr amser cyflymaf am seiclo 10 milltir ar y ffordd.

Bu Eifion yn cystadlu hefyd mewn cystadleuaeth seiclo fyny'r allt gerllaw Castell Coch a hefyd ym Medlinog ym mis Hydref.

Traws Gwlad
Daeth Rhian Phillips o flwyddyn 8 yn 9ed mewn cystadleuaeth traws gwlad yn Lerpwl yn ddiweddar. Cymerodd 45 disgybl ran yn y gystadleuaeth o bob rhan o Brydain. Daeth Rhian yn 4ydd allan o 8 yn Stadiwm Casnewydd ac yn ddiweddarach fe lwyddodd i gael yr amser ail gorau am draws gwlad sef 5 munud 38.1 eiliad.

Rhys Lewis ac Aneurin Barbard

Caitlin Thomas

Mikaela Hood



Eifion Weinzweig

Rhian Phillips

Judo
Mae Natalie Thomas o flwyddyn 11 yn rhan o dîm Prydain sy'n cystadlu yn yr Iseldiroedd mewn cystadleuaeth rhyngwladol ar Hydref 27ain. Mae'r ysgol yn dymuno pob lwc i Natalie ac i bob un arall o'n disgyblion sy'n cynrychioli Llanhari, Cymru neu Prydain.

Natalie Thomas

Nina Richards

Gymnasteg
Mae Nina Richards o flwyddyn 10 wedi bod yn cystadlu yn ddiweddar mewn cystadleuaeth yng Nghlwb Gymnasteg Abertawe ar gyfer disgyblion ysgol o dde a gorllewin Cymru. Daeth Nina yn ail ar y ceffyl pren ac yn drydydd yn y gystadleuaeth llawr. Daeth Nina yn 3ydd ym mhopeth gyda'i gilydd.

Tŷ Hafan
Ar ôl gwasanaeth gan Mrs Winard pennaeth bl 8 a 9 fe benderfynodd nifer o ddisgyblion bl 9 i gynnal bore coffi i'r athrawon a gwerthu cacennau i'r disgyblion yn ystod wythnos "Iâr fach yr haf". Fe weithiodd tua 20 disgybl yn arbennig o galed yn coginio, gweini ac yn gwerthu cacennau o bob math ond yn enwedig cacennau pili pala. Codwyd tua £120 erbyn diwedd yr wythnos ac aeth nifer o'r disgyblion gyda athrawon o'r ysgol i roi siec i Tŷ Hafan ar y 12ed Hydref.

Bore Coffi
Mae taith pêl-rwyd wedi cael ei threfnu i Baris ac i gynorthwyo tuag at gost y daith mae'r merched ac un o'u hathrawon, Miss Amanda Williams, wedi trefnu bore coffi ar gyfer yr athrawon. Mae merched o flynyddoedd 8, 9, 11 a 13 yn cymryd rhan yn y daith.

Bore Coffi y daith bêl rwyd

Offerynwyr Llanhari a fu'n diddanu cangen Merched y Wawr Pen-y-bont ar 2il Hydref

Bore Coffi tuag at Tŷ Hafan

Y Tîm Pêl Rwyd yn paratoi am Baris

CYFIEITHYDD CYMUNEDOL

Cyflog: £16,000 - £17,000

Mae Mentrau Morgannwg-Gwent yn chwilio am gyfieithydd cymunedol / cynghorydd cyfieithu, gyda chymwysterau addas i weithio o swyddfa Aberdâr ac neu o gartref ar adegau. Fe ddylid gwneud cais ar ffurf braslun gyrfa a llythyr, gyda enwau a chyfeiriadau dau ganolwr. Fe fydd yr unigolyn a benodir yn gweithio ar y cyd i Menter Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Caerdydd, Bro Ogwr a grwpiau cymunedol yr ardal ac felly mae'n angenrheidiol bod car gennych.

Dyddiad cau 26/11/01; cyfweliadau 03/12/01

Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth:

Menter Iaith

Y Tŷ Model, LLANTRISANT. CF72 8EB
☎ 01443 226386 🖷 01443 239327
e✉ huwthomasdavies@menteriaith.net

Cefnogwyd gan

CRONFA GYMUNEDOL

Arian loteri yn gwneud gwahaniaeth

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.net

Steffan Webb gyda John Thomas, Cadeirydd y Fentre, yn diolch i Jane Davidson A.C. ar ddiwedd ei haraith.

CEFNOGAETH JANE DAVIDSON I'R FENTER IAITH

Braf oedd cael gwybod bod Jane Davidson yn ymwybodol iawn o waith mentrau iaith yn gyffredinol a'r Fenter Iaith yn Rhondda Cynon Taf yn arbennig wrth iddi annerch ein cyfarfod blynyddol yn ddiweddar o flaen rhyw 45 o bobl gan gynnwys aelodau Cynulliad, Cynghorwyr lleol a Phrifathrawon uwchradd a chynradd yr ardal. Cyflwyniad dwyieithog a gafwyd ganddi wrth ddechrau a gorffen yn y Gymraeg ond gwneud defnydd helaeth o'r Saesneg yn y canol. Addysg Gymraeg i bawb oedd testun ei sgwrs a difyr oedd clywed am sefyllfa Canada lle mae sawl cyfle gyda phlant i newid o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Ffrangeg gan fanteisio ar gyrsiau dwys mewn canolfannau i hwyrddyfodiad. Siom ydy deall nad oes canolfannau felly i fod yn Rhondda Cynon Taf a bod ambell i ddiffyg arall ar Gynllun Addysg Gymraeg y Sir hyd yn hyn. Cwestiynau uniaith Gymraeg a ofynnwyd i Jane Davidson ar ddiwedd ei sgwrs ac roedd pawb wedi gwerthfawrogi ei hatebion cadarnhaol a chefnogol yn y Gymraeg wrth iddi fanteisio ar ambell i gyfieithiad sydyn a chyfraniad brwd o'r llawer.

YSBRYDOLIAETH!

Dwi'n cyfeirio at y gair yma yn aml iawn – fel arfer yn chwilio amdano – ond braf oedd gwybod bod ein cyfarfod cyffredinol wedi bod yn ysbrydoliaeth i ambell un o'n pwyllgorwyr oedd wedi mwynhau'r noson. Roedd ymdrechion Jane Davidson i ddefnyddio'r Gymraeg yn calonogi pawb ond gwir ysbrydoliaeth y noson oedd staff ifanc y Fenter a wnaeth gyflwyniadau byr, brwdfrydig a phroffesiynol ar eu gwaith a'u gobeithion am y flwyddyn nesaf. Roedd pob un wedi paratoi arddangosfa o'u gwaith a darparu adroddiadau ysgrifenedig er gwybodaeth i bawb. Mae copïau ohonynt ar gael ar wefan y Fenter - www.menteriaith.co.uk ac y mae'n werth edrych arnynt i weld faint o waith sy'n mynd ymlaen a pha mor fyw ac iach y mae gweithgaredd y Fenter ar hyn o bryd. Do. Fe siaradais i hefyd ond cyfeirio at lwyddiant fy staff i oedd fy mhrif gyfraniad. Rhag ofn bod pawb yn meddwl nad oedd unrhyw gwynion gen i o gwbl roedd rhaid i mi dynnu sylw at natur dros dro ariannu'r Fenter sydd yn arwain at drosiant go uchel o staff, diffyg cydlynu a diffyg cyfle i gynllunio ymlaen llaw. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar y Cynulliad am beth o hyn a chafwyd addewidion gan Owen John Thomas a Karen Roberts y byddant yn codi hyn o fewn eu pleidiau ac o fewn y cynulliad. Er gwybodaeth y mae cytundebau'r staff i gyd, mwy neu lai, yn gorffen erbyn diwedd Mawrth 2002 felly oes modd trefnu Parti Ponty? A fydd cynlluniau chwarae adeg y Pasg hyd yn oed heb sôn am yr Haf? Wel, gobeithio bydd ond mae'n debyg bod eisiau ffydd yn ogystal ag ysbrydoliaeth.

ETHOL PWYLLGOR NEWYDD A SYMUD YN NES AT GOFRESTRI'R FENTER YN GWMNI CYFYNGEDIG

Dewiswyd pwyllgor newydd yn y cyfarfod blynyddol a braf ydy cael croesawu nifer o bobl ifanc i'r pwyllgor wrth i ni ymdrechu'n galed i weithio gyda phobl ifanc yr ardal. Mabwysiadwyd drafft cyfansoddiad newydd a fydd yn cael ei weithredu os ydy'n dderbyniol i'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Ewrop a Thŷ'r Cwmnïau – mewn gwirionedd yr ydym yn ddibynnol iawn ar sawl corff arall erbyn hyn. Y mae ambell un wedi gadael pwyllgor y Fenter am amrywiaeth o resymau. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod ar bwyllgor y Fenter yn ystod y flwyddyn gan obeithio y byddant yn cadw cysylltiad a chefnogi'r pwyllgor newydd cymaint ag y bo modd. Diolch yn fawr iawn hefyd i Penri Williams sydd wedi ymddeol fel Ymddiriedolwr Menter Taf-Elai eleni – mae wedi gweithio yn galed iawn i sicrhau bodolaeth a llwyddiant y Fenter yn ystod y blynyddoedd diwethaf – braf ydy deall ei fod yn ymddeol fel ymddiriedolwr er mwyn chwarae rôl hyd yn oed mwy gweithredol gyda'r Fenter! Y mae'n parhau fel trysorydd ac y mae John Llywelyn Thomas yn parhau fel Cadeirydd.

CYFIEITHYDD CYMUNEDOL MORGANNWG GWENT

Llwyddiant diwethaf gyda Chronfa Gymunedol y Loteri ydy grant i

benodi Cyfieithydd Cymunedol i wasanaethu Mentrau Morgannwg Gwent a grwpiau cymunedol – bydd hysbysebion yn ymddangos yn fuan iawn. Mae Mentrau Morgannwg Gwent eisoes yn elwa ar wasanaethau technoleg gwybodaeth ac yn darparu rhai o wefanau gorau'r mentrau felly ewch at www.iaith.org neu unrhyw un o'r mentrau lleol sef Menter Iaith Caerffili, Menter Bro Ogwr a Menter Iaith Caerdydd. Gan fod pob un ohonynt yn gweithio yn agos iawn gyda'r gymdeithas wirfoddol sirol – fel Interlink – bydd llwythi o waith cyfieithu a chynghori cyrff bach ynglŷn â chyfieithu a threfnu cyfieithu yn ogystal â chynydd mewn defnydd o'r offer cyfieithu diweddaraf.

WWW. CWLWMBUSNESYCYMOEDD.CO.UK

Dyma ni wefan arall sydd gwerth cael cip arni a sicrhau bod manylion eich busnes chi yn ymddangos ymhlith aelodau'r cwlwm – wedi'r cyfan y mae yn hysbys rhad ac am ddim ac yn gyfle i rwydweithio a chyfarfod â chwsmeriaid newydd o blith pobl busnes Cymraeg y cymoedd. Siaradwr nesaf y cwlwm ydy Alun Davies Pennaeth Corfforaethol S4C a fydd yn trafod "Delwedd a Chyfleon Busnes y Cymoedd" parthed cwmni S4C am 6pm ar nos Fawrth 20fed Tachwedd 2001 yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Abercynon. Dewch! Os dim byd arall y mae gwydryn o win ar gael am ddim! Ac wedyn y mae John Hardy, Radio Cymru, yn siaradwr gwadd cinio Nadolig Cwlwm Busnes y Cymoedd a fydd yn cael ei gynnal am 7pm ar 4ydd Rhagfyr 2001 yn y Tŷ Newydd Hirwaun gyda staff sy'n siarad Cymraeg a chwmni Côr cyfan! Wel, cyfran o gôr yn canu carolau ta waeth diolch yn fawr iawn i Eirian Davies a Rhian James am eu gwaith trefnu. Bydd John yn siarad ar y noson – denu'r Cwpan Ryder, golff, ydy dechreubwynt busnes y sgwrs ond dwi'n byw mewn gobaith am gael gwybod mwy am y boi Hamann yma sydd mor bwysig i Glwb Pêl-droed Caerdydd ar hyn o bryd. Dyw'r cinio Nadolig ddim am ddim ond dyw e ddim yn rhy ddrud chwaith – ffoniwch 01685 877183 am fanylion.

HYFFORDDIANT BUSNES A GWIRFODDOL YN CYFFWRDD

Mae rhai yn synnu wrth i mi honni nad oes unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd rhwng y sector gwirfoddol a'r sector preifat a gwelwyd y gor-gyffwrdd yma yn glir iawn yn ystod y mis diwethaf wrth i Eirian Davies drefnu cwrs busnes a oedd yn cynnwys sesiwn ar farchnata ac i Rhodri Thomas drefnu cyfarfod Fforwm Mudiadau Cymraeg Rhondda Cynon Taf a'r cylch a oedd hefyd yn ystyried marchnata! Gwn fod y sector preifat yn ceisio gwneud elw a'r sector gwirfoddol fel arfer yn grŵp yn gweithredu er lles cymharu yn dda iawn gyda 4/5 sy'n mynychu cyrsiau tebyg yn Saesneg. Rydym yn gobeithio gwneud hyd yn oed yn well yn y flwyddyn newydd wrth dargedu pobl ifanc yn benodol mewn cydweithrediad gydag ysgolion y cylch.

ARGYFWNG GWIRFODDOLI OND DIM DIWEDD I'R GWAITH

Fel arfer y mae pobl yn cwyno nad oes neb yn fodlon gwneud dim byd yn wirfoddol y dyddiau hyn ond nid dyna brofiad y Fenter o bell bell ffordd. Ein problem ni ydy bod llwythi o wirfoddolwyr gyda ni ond dim staff i'w trefnu. Daeth prosiect Datblygu Gwirfoddoli Cymraeg gydag Interlink i ben y mis yma ac rydym yn aros i glywed a fydd modd adfer y swydd honno yn fuan yn y flwyddyn newydd. Gwnaed rhywfaint o waith y prosiect hwnnw gan Rhodri Thomas sydd wedi bod yn gweithio fel Swyddog Gwirfoddoli'r Milflwydd gyda ni ers dros flwyddyn nawr ond fe fydd Rhodri yn ymuno â staff Interlink llawn amser yn fuan gan adael y Fenter heb yr un swyddog gwirfoddoli ar hyn o bryd. Mae Rhodri wedi gwneud gwaith gwych i'r Fenter felly nid yw'n syndod bod ein partneriaid Interlink am ei ddwyn i ffwrdd i weithio iddyn nhw a chan ein bod yn methu rhoi sicrwydd swydd iddo…chwarae teg i bawb…..a llongyfarchiadau iddo fe ar ei lwyddiant.

Os ydych wedi darllen o ddechrau'r erthygl hon neu wrando arnaf yn pregethu o'r blaen byddwch yn gwybod fy mod yn anhapus iawn iawn gyda natur dros dro ariannu mentrau iaith. Sylfaen yr ansicrwydd hyn ydy trefniadau ein Cynulliad Cenedlaethol sy'n methu rhoi sicrwydd ariannol i Fwrdd yr Iaith sy'n methu rhoi sicrwydd ariannol i fentrau a chyrff tebyg.

Parhad >

STAFF GOFAL PLANT

Arweinydd
hyd at £5.50 yr awr

Cynorthwywyr
hyd at £5.00 yr awr

Rydym yn chwilio am staff gofal plant ar gyfer Clybiau Carco (3.30 – 5.45pm) yn ysgolion:
Pontsiôn-norton, Evan James, Garth Olwg, Heol y Celyn, Abercynon, Aberdâr, Tonysguboriau, Bodringallt, Bronllwyn, Llwyncelyn, Llyn y Forwyn, y Dolau, Llanharan, Twynyrodyn, Rhydygrug, Castellau, Tonyrefail, Bronllwyn.
Hefyd yng nghynlluniau gwyliau (8.30 – 5.45): Rhydfelen, Llanhari, Bronllwyn, Llynyforwyn, Abercynon a'r Cymer.
Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth:

Menter Iaith
Y Tŷ Model, LLANTRISANT.
CF72 8EB
☎ 01443 226386 🖷 01443 239327
e✉
huwthomasdavies@menteriaith.net

Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
ADDYSG . IECHYD . AMGYLCHEDD

O'r Menter Iaith

Teg yw nodi nad yw ein cyngor lleol wedi rhuthro i sicrhau dyfodol y Fenter er eu bod yn rhoi arian craidd i gyrff Saesneg y sir nad yw yn gwneud hanner cymaint o waith datblygu a chreu gwaith ac y mae'r Fenter yn ei wneud. Ar dystiolaeth gwaith ein Cynulliad a gwaith ein cyngor nid yw'r Gymraeg o unrhyw werth o gwbl.

Mae Is-bwyllgor Gwirfoddoli'r Fenter gan gynnwys arbenigwyr o Interlink, VAMT, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol, CSV ac eraill wedi cyfarfod i ystyried fel mae datblygu'r maes ac y mae nôd o benodi swyddogion gwirfoddoli i'r ieuenctid, y di-waith a'r rhai hŷn neu newydd ymddeol. Wrth gwrs 'na i gyd sydd eisiau ydy sicrhau'r adnoddau i wneud y gwaith ond y mae'n gallu bod yn help i sylweddoli bod na angen a nôd a bwriad i ddiwallu'r angen hwnnw mor fuan ag y bo modd.

Mae'r Fforwm Mudiadau Gwirfoddol yn ystyried nifer o bynciau fel sail i'w cyfarfod ar 12/12/01 yn Interlink Pontypridd gan gynnwys Y Fargen Newydd, Codi Arian a Chapeli Fel Canolfannau Cymunedol. Dwi yn gobeithio taw'r un olaf fydd yn cael ei drefnu oherwydd ei fod yn berthnasol i bob un capel sydd yn wag trwy'r wythnos ar wahân i ambell i awr ar y Sul ac i bob un grŵp cymunedol neu gylch meithrin sy'n dibynnu ar gapeli i gynnal eu gweithgareddau. Beth ydy'r peth pwysicaf i gapelwyr? Gweld eu capeli fel man addoli yn unig neu gweld y gymuned gyfan yn cael gwerth o adnoddau gwerthfawr?

POSTERI BACH DEL I HYSBYSEBU'R BOREAU COFFI

Paratowyd poster bach del i hysbysebu'r boreau coffi yn Trefforest, Aberdar, Aberpennar, Pontypridd a Llantrisant ac fe fyddant yn cael eu gweld mewn llyfrgelloedd a chanolfannau trwy'r ardal yn fuan iawn diolch i Acen am grant i dalu amdanynt. Mae grantiau dysgwyr ar gael diolch i HSBC ac fe fydd criw go fawr o ddysgwyr yn derbyn grantiau yn ystod mis Tachwedd fel gwobr am aros yn eu dosbarthiadau am y tymor cyntaf – llongyfarchiadau iddyn nhw a'u tiwtoriaid. Bu raid gohirio cyfarfod Is-Bwyllgor Dysgwyr y Fenter yn ddiweddar ond fe fydd hyn yn cael ei ad-drefnu yn fuan.

BOWNSIO ER MWYN PLANT MEWN ANGEN

Alla'i ddim ysgrifennu erthygl gyfan heb sôn am ofal plant! Bu plant cynlluniau chwarae Rhydfelen, Llanhari, Abercynon, Bronllwyn, Llynyforwyn ac Y Cymer i gyd yn bownsio ar gastell neidio'r Fenter er mwyn codi arian at BBC Plant Mewn Angen. Mae hyn yn fy mhlesio i yn arw gan fod y gronfa honno wedi ein cefnogi ni mor gyson yn ystod y blynyddoedd. Nid yw staff y Fenter wedi cael cyfle i fownsio eto ond rwyf yn gobeithio y daw eu cyfle yn fuan. Yn y cyfamser y mae clybiau carco ar agor yn Twynyrodyn, Rhydygrug, Tonysguboriau, Bodringallt, Bronllwyn, Llwyncelyn, Evan James, Pontsionorton, Heol y Celyn, Garth Olwg, Y Dolau, Tonyrefail, Castellau, Aberdâr, Abercynon a Llynyforwyn. Un clwb sydd ar ôl i'w hagor, wrth i mi ysgrifennu, sef ysgol gynradd Llanharan a rwy'n gobeithio y bydd wedi agor o fewn y dyddiau nesaf. Dosberthir holiadur gwerthuso a chynhelir cyfarfodydd agored yn yr holl glybiau hyn yn fuan ar ôl Nadolig.

GWE FANNAU I YSTYRIED YR IEUENCTID

Dwi wedi cadw gwaith Dawn Williams tan y diwedd er mwyn sôn am gyfarfod fydd yn ystyried gwe fannau'r mentrau iaith a chysylltiad penodol a phobl ifanc. Trefnir cyfarfod yn fuan o staff y mentrau lleol yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Caerdydd a Bro Ogwr sydd i gyd yn cyflogi staff ieuenctid, yn aml ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru, i drafod gwneud y gwe fannau yn berthnasol i bobl ifanc yr ardal. Y mae hyn yn un peth arall i Dawn ar ben y clybiau drama, dawnsio, cyber caff, gweithdai animeiddio, tripiau ac yn y blaen ond gwn ei bod yn gallu gwneud gwyrthiau!

Steffan Webb
Prifweithredwr Menter Iaith

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Noson gyda

Alun Davies

Pennaeth Corfforaethol S4C

"Delwedd y Cymoedd ar S4C a chyfleon i Fusnesau Lleol."

Gwahoddir chi i ymuno â ni ar gyfer anerchiad Alun Davies o S4C yng Nghanolfan Busnes y Cymoedd, Abercynon am 6.00 nos Fawrth, 20 o Dachwedd, 2001.

Manylion pellach oddiwrth:
Menter Iaith
Y Tŷ Model, LLANTRISANT. CF72 8EB
☎ 01443 226386 🖷 01443 239327
e✉ huwthomasdavies@menteriaith.net

CIC

Cynllun Ieuenctid y Cymoedd
Yn darparu gweithgareddau Cymraeg tu allan i oriau ysgol

Mae prosiect CIC yn tyfu trwy'r amser, mae nifer o glybiau newydd wedi agor o amgylch Rhondda Cynon Taf. Clwb dawnsio disgo Aberdâr, Clwb Drama Aberdâr ac un yn y Rhondda. Gwelwch amserlen y clybiau i weld os oes rhywbeth ar gael i chi. Os nad oes rhywbeth yna i chi cysylltwch â CIC i weld os allwn ni drefnu rhywbeth ar eich cyfer. Un o'r clybiau sydd i'w hagor nesaf bydd, clwb rygbi i ferched dan hyfforddiant Rhodri Wyn Thomas sy'n chwarae i Gaerfyrddin felly edrychwn allan amdani!

Dros y tymor diwethaf mae Drama wedi bod ar Daith! Aeth Rhian Grundy, arweinydd y Diawled Dawnus a'r Rascals a fi o amgylch ysgolion Cymraeg ardal Taf Elai yn hyrwyddo'r grwpiau. Hoffwn ddiolch i'r ysgolion ac i Rhian am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth. Hoffwn hefyd groesawu aelod newydd i staff CIC sef, Lowri Davies. Mae Lowri wedi cytuno helpu arwain y Rascals a chyfarwyddo'r ochr gerddorol.

Rydyn ni wastad yn edrych am aelodau newydd ond hefyd staff newydd. Felly os oes talent arbennig gyda chi, falle yn medru dylunio safleoedd gwe neu'n arbenigwr pêl rhwyd, cysylltwch â mi ar 01685 882299 neu cic@urdd.org

Dawn Williams Cydlynydd Ieuenctid

CLYBIAU CIC

PRYD?	GWEITHGAREDD	LLEOLIAD	AMSER	PRIS
Nos Lun	Dawnsio Disgo	Canolfan yr Urdd, Aberdâr	7 - 8	£1
Nos Lun	Y Diawled Dawnus Drama Oedran 11 - 18	Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref	5:30 - 7:30	£2
Mawrth	Clwb CIC	Ysgol Rhydywaun	12:45 - 1:45pm	£1
Nos Fawrth	Drama	Cwm Parc, Rhondda	7 - 9	£2
Nos Fercher	Drama	Canolfan yr Urdd, Aberdâr	6 - 8	£2
Nos Iau	Cyber Caff	YMCA Pontypridd	7 - 9	£2
Nos Iau	CIP - Clwb Ieuenctid Pontypridd	YMCA Pontypridd	7 - 9	£2
Bore Sadwrn	Y Rascals Drama Oedran 5 - 11	Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref	10:30 - 12:25	£2

HSBC YN ARLOESI GYDA CHYFRIFLENNI CYMRAEG

HSBC yw'r banc cyntaf i gynnig cyfriflenni yn Gymraeg.

Mae'r cyfriflenni, sydd ar gael nawr, yn haws i'w darllen ac yn cynnig cyngor a gwybodaeth wedi'i deilwra i anghenion cwsmeriaid unigol.

Nodwyd yr achlysur drwy gyflwyno'r gyfriflen Gymraeg gyntaf i John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng Nghlwb Hwylio Bae Caerdydd. Yn ystod yr achlysur, cafodd y gwesteion y cyfle i deithio ar gwch pŵer wedi'i yrru gan Jonathan Jones, pencampwr cwch pŵer Formula One.

Dywedodd Sian Elin Jones, rheolwr materion cymunedol Cymreig, Banc HSBC: "Mae cynhyrchu cyfriflenni Cymraeg yn gam arwyddocaol i'r banc ac yn un rwy'n siwr y bydd yn cael ei groesawu gan ein cwsmeriaid. Rydym yn falch iawn o'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn ac o'r enw da rydym wedi ei gael yn sgil ein polisi dwyieithog."

Dywedodd John Walter Jones: "Mae gan HSBC draddodiad hir o ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg ac mae'n bleser gweld y banc yn parhau gyda'i waith arloesol. Mae cyhoeddi cyfriflenni Cymraeg yn arwydd pellach o ddymuniad HSBC i gyflwyno gwasanaeth o'r radd flaenaf i'w gwsmeriaid yng Nghymru."

Cyfle i'ch Papur Bro ennill cyfrifiadur symudol

BT Bob tro

Cofrestrwch y nifer uchaf o ddarllenwyr i dderbyn bil ffôn Cymraeg gan BT (cwsmeriaid preswyl), yna eich papur bro chi gaiff y wobr fawr – cyfrifiadur symudol. Mae'n bwysig i'ch darllenwyr enwi'r Papur Bro wrth gofrestru.



Gall wneud eich bywyd yn haws bob mis.

Dyddiad cau ar gyfer cofrestru: Ionawr 31

Gwobr i'w gyhoeddi yn y flwyddyn newydd

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

YSGOL FEITHRIN PONTYCLUN

Cefais lythyr yn ddiweddar gan Colin Murphy, Cadeirydd yr Ysgol Feithrin ym Mhontyclun yn gofyn i mi roi ychydig o hysbys i'r ysgol. Mae'n dal i fod yn llwyddiannus gyda chyfleusterau da iawn sy'n cynnwys ystafelloedd peintio, yr ystafell fawr, yr iard chwarae, y tai bach a'r teganau o safon uchel. Mae diolch mawr yn mynd i henaduriaid Capel Hope, lle y cynhelir yr Ysgol Feithrin, am ganiatáu defnydd o'r cyfleusterau hyn. Mae yna rai llefydd gwag yn dal ar gael yn yr ysgol ac mae croeso i rieni'r ardal archebu lle i'w plant o hyd.

Mae Cylch Ti a Fi yn parhau a cynhelir y sesiynau bob bore dydd Mawrth o 10.30 hyd at 12.00. Apêl sydd gan Colin ar ran y Cylch, sef am deganau o safon uchel. Os ydych yn bwriadu tacluso a chael gwared ar rai teganau sydd yn eich t ŷ chi cyn y Nadolig, byddai swyddogion Cylch Ti a Fi yn ddiolchgar am gael derbyn unrhyw beth addas i fabanod a phlant ifanc iawn.

Os oes cyfraniadau gyda chi neu am fanylion pellach ynglŷn â'r Feithrin, cysylltwch â Colin ar 239366.

CYSTADLEUAETH COGINIO

Nôl ym mis Medi soniais am Mrs Alison Philip, Swan Street, fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth coginio yn Rhondda Cynon Taf. Yn ddiweddar bu hi'n cystadlu yn y rownd nesaf yn erbyn enillwyr siroedd eraill Cymru ac mi wnaeth yn arbennig o dda a dod yn ail yn y gystadleuaeth honno. Da iawn ti!

CYNRYCHIOLI'R SIR

Ar ddiwedd mis Hydref bydd Jayne Collier, Llantrisant yn cynrychioli 'Guides' Ardal Canol Morgannwg am benwythnos yn Llandinam ger y Drenewydd. Mae Jayne yn mynychu'r '1st Pontyclun Guides Group' ac ar ôl cyflwyno ffurflen gais mi gafodd ei dewis i gynrychioli'r grŵp yna mewn canolfan sy'n perthyn i Sefydliad y 'Guides' ym Merthyr Tydful. Roedd tua 25 o ferched yn Nrws-y-coed o'r ardal a elwir yn Ganol Morgannwg, a buont yno am benwythnos yn gwersylla, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn coginio ar dân agored.

Rhaid bod Jayne wedi gwneud argraff arbennig oherwydd cafodd wybod rhai wythnosau'n ddiweddarach ei bod wedi ei dewis i fynd ymlaen i gynrychioli Canol Morgannwg mewn penwythnos ar gyfer enillwyr bob ardal yng Nghymru. Mi fydd hi'n gorfod gwneud cyflwyniad byr ar yr ardal lle mae hi'n byw ac mae wedi bod yn brysur wrthi'n gwneud baner i'w arddangos sy'n dangos Castell Llantrisant, y Bathdy a bathodyn yr ysgol, ymysg pethau eraill. Cynhelir y penwythnos yn y tŷ lle bu David Davies yn byw, a chawn glywed mwy am y gweithgareddau a sut daeth Jayne ymlaen yn y rhifyn nesaf gobeithio.

Priodas

Llongyfarchiadau cynnes i Awen Mai a Rhys Evans ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Fe gynhaliwyd y gwasanaeth priodas yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf ar brynhawn Gwener Hydref 5ed. Yn ystod y gwasanaeth, cafwyd darlleniad a gweddi gan y Parch D. Eirian Rees a gweinyddwyd y cyfamod priodas gan ddatcu Awen, Y Parch E.J. Davies, Penbre.

Mae Awen yn ferch i Geraint Wyn a Sara Davies, Groes-faen. Mae gwreiddiau ei phriod, Rhys,ym Mangor, ond ers rhai blynyddoedd bu'n gweithio fel cynhyrchydd teledu yn yr Adran Fasnacha yn S4C. Mae Awen yn olygydd yng Nghofnod y Trafodion yn y Cynulliad. Mae'r pâr priod wedi ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Dymuniadau gorau a phob bendith i'r ddau.

CYFLWYNO SIEC

Cafodd dwy o ferched Llantrisant eu dewis i gynrychioli Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Llanhari yn ddiweddar ar achlysur cyflwyno siec i Dŷ Hafan, y llety/ysbyty yn arbennig i blant sydd â salwch difrifol. Penderfynodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 9 gynnal bore coffi yn yr ysgol a buont wrthi'n coginio teisennau a bisgedi am ddyddiau! Yna gwerthwyd y cynnyrch i'r staff a'r disgyblion a llwyddon nhw i godi £110. Wedyn, ar 12 Hydref aeth Mrs T Severn (Pennaeth Blwyddyn 9) â Catrin Evans ac Emma Wilkins Lowe ynghyd â dau ddisgybl arall lawr i Dy Hafan ger Penarth i gyflwyno'r siec. Cafodd y plant eu tywys o gwmpas yr ysbyty a chael clywed sut ofal mae'r plant sy'n sâl yn ei gael. Roedd Catrin ac Emma yn falch eu bod wedi gallu gwneud rhywbeth i godi ychydig arian i sicrhau parhâd y gofal yma.

HOLLYWOOD YN DOD I LANTRISANT!

Bu cryn brysurdeb yn hen dref Llantrisant o 15-17 Hydref pan ddaeth actorion a chriw ffilmio i'n plith er mwyn gwneud ffilm ar gyfer y sinema. Ymhlith yr actorion roedd Christopher Walken (oedd yn 'The Deer Hunter'a 'Mousehunt'), Brenda Blethyn, Lee Evans ('Mousehunt') a Miriam Margoyles a chaewyd rhannau o'r dref ar gyfer eu ffilmio i fyny yn y Bullring. Roedd y ddau dŷ drws nesaf i'r siop wedi eu troi'n siop deledu a siop trefnu angladdau dros dro gan mai comedi ddu fydd y ffilm "Plots with a View" am drefnwyr angladdau yn cystadlu â'i gilydd! Bydd ffilmio'n cymryd lle ym Mhontyclun, Cwm Cynon a Threorci yn ogystal â Llantrisant a'r gobaith yw y daw â gwerth £60,000 y diwrnod i'r economi lleol. Daw'r ffilm i'r sinemâu yn 2002-03 yn ôl pob sôn ac edrychaf ymlaen at gael gweld y llefydd sydd mor gyfarwydd i mi ar y sgrîn fawr!

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Croeso
Croeso mawr i Huw a Carol Owen a'r merched, Branwen, Megan a Siân sydd newydd symud i Maes y Sarn.Maent wedi bod yn rhenti yng Nghreigiau ers rhyw chwe mis, a chyn hynny roeddent yn byw yng nghyffiniau Caernarfon. Mae'r merched bellach wedi ymgartrefu yn Ysgol Creigiau. Croeso i'r pentre' a phob dymuniad da yn eich cartref newydd.

MYW
Yn ystod ein cyfarfod Fis Hydref, cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Ann Hughes. Mae Ann wedi sefydlu'i chwmni ei hun fel "House Stylist" ac mae hi'n weithgar iawn i lawr ym Mae Caerdydd, yn dod ag ychydig o "steil" i'r fflatiau. Cawsom weld enghreifftiau o'i gwaith a chael clywed wrthi am liwiau, dodrefn a llenni ffasiynol heddiw. Ni sylwais fod cymaint o bosibiliadau i'w gael gyda llenni!
Roedd yn noson ddiddorol, a rwy'n siwr i bawb deimlo fel gwneud ychydig o newidiadau i'w cartrefi, wedi iddynt glywed syniadau diddorol Ann.

Mis nesa' byddwn yn cymeryd rhan yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái ar Nos Fercher 21 Tachwedd a byddwn yn datlu'r Nadolig gyda Merched y Garth ar 13 Rhagfyr yn Ysgol Creigiau.

SIOP BARA Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

Criw a fu'n rhedeg Ras y Garth o Glwb Rygbi Pentyrch i ben y Garth tuag at Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2002

CYLCH CADWGAN

Y TAEOGION YM MHENTYRCH

Cafwyd noson lwyddiannus ddechrau Hydref i lansio Cylch Cadwgan. Er y tywydd gwlyb, daeth tyrfa niferus i Neuadd y Pentre Pentyrch i wrando ar y Taeogion – Ceri Wyn Jones, Emyr Davies a Tudur Dylan Jones. Mwynhad pur oedd eu clywed yn darllen eu gwaith gan chwerthin ar finiogrwydd y dychan a dotio at gelfyddyd y prydyddu. Y diweddglo oedd trafodaeth (gynganeddol) cwrdd diaconiaid, a'r tri yn llwyddo i daro ymron pob cocyn hitio capelaidd (Bethlehem a Tabernacl – daliwch sylw!).

Cafwyd ocsiwn a chodwyd £60 tuag at Tŷ Hafan. Nôd yr ocsiwn oedd gosod testun englyn i'r Taeogion gyfansoddi ar y pryd. Y testun a orfu? Wel, Cadwgan, wrth gwrs!

Dyma fe:

Am i'r un dros Gymru well – roi ei gorff
I'r gad yn ddigymell
Yn y byd ac yntau'n bell
Nawr fi sy'n hogi'r fwyell.

Mae Cylch Cadwgan yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth yr Academi Gymreig ar gyfer yr holl gyfarfodydd sydd wedi eu trefnu.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth am 8 o'r gloch nos Wener Tachwedd 9 pan geir darlith/cyflwyniad gan John Ogwen a Maureen Rhys – "Cnoc, cnoc! Pwy sy' 'na?". Hwn fydd eich cyfle cyntaf i weld y ddau yn y De gyda'r cyflwyniad arbennig hwn. Peidiwch a cholli'r cyfle.

Y Taeogion ym Nghylch Cadwgan

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

Priodas
Dymuniadau gorau i Richard Griffiths, mab Nannette ac Elgar Griffiths, Cheriton Grove, Tonteg ar ei briodas â Dr Ann Price o Gorneli. Mae Richard ac Ann yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llanhari.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i Lynnwen a Dafydd Pretty a'r teulu, y Dell, Tonteg, wedi i Lynnwen golli ei mam yn ddiweddar.

Hefyd bu farw Morfudd Morris, Y Ffordd Fawr, Pentre'r Eglwys ddiwedd mis Medi. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w gŵr David, ei meibion David a Huw, ei merched yng nghyfraith, Mary a Vicky, a'i wyrion a'i wyresau Emily, Emma, David yng Ngarth Olwg a Laura, Rebecca a Jessica yn Rhydfelen. Roedd yr angladd yng Nghapel Salem Tonteg ac amlosgfa Glyn Taf.

Arholiadau

Daeth yn amlwg o dudalen blaen y cylchgrawn Golwg fod mwy o bwyslais ar steil na dysg yng Ngholeg Prifysgol Aberytwyth. Osian Siôn o Bentre'r Eglwys fu'n cael gwedd newidiad.

Priodas Ann a Richard Griffiths

Llongyfarchiadau i Lewis Masling a Lucy Thomas – dau gyn ddisgybl o ysgol Gartholwg am wneud yn dda yn eu harholiadau lefel 'A', a phob dymuniad da i Lewis ym Mhrifysgol Morgannwg a Lucy ym Mhrifysgol Caerdydd.

Amser Maith Ymlaen
Llongyfarchiadau i blant yr ardal a oedd yn cymryd rhan yn Sioe ardderchog Ysgol Rhydfelen 'Amser Maith Ymlaen' yn y Miwni. Braf oedd gweld cymaint o gyn ddisgyblion Garth Olwg ymysg y cast - yn amlwg wedi bod yn gweithio'n galed yn paratoi. Rwy'n siwr yr hoffai'r plant (a'u rhieni) ddiolch i'r athrawon am eu gwaith caled hefyd. Llongyfarchiadau i bawb.

MENTER IAITH a Choleg Pontypridd

CYRSIAU CYFRIFIADUR
14 o DACHWEDD, 2001



CYRSIAU TECHNOLEG GWYBODAETH CYMRAEG

- ❑ **CITY & GUILDS** – 6.00 – 9.00 – un noson am 30 wythnos
- ❑ **CLAIT**(Cyfrifiadureg a Thechnoleg Gwybodaeth) 4.00 – 6.00 – un amser te am 30 wythnos
- ❑ **CYFLWYNIAD I GYFRIFIADURON** – 1.00 – 3.00 un prynhawn am 6 wythnos

- Os oes angen hyfforddiant arnoch i ddeall prif elfennau y Cyfrifiadur – prosesu geiriau, bas data a thaenlenni – dyma'r cyrsiau i chi.
- Mae'n addas i unigolion heb unrhyw brofiad a rhai sydd â dealltwriaeth sylfaenol – Windows '95/'98© Word / Access / Excel.
- Cyfle i wneud cais am Gyfrif Dysgu Unigol (ELWA) a gostyngiadau i bobl – di-waith / wedi ymddeol /yn derbyn nawdd cymdeithasol / cyrff a chyflogwyr bychain / pensiynwyr.

Cysylltwch â
MENTER IAITH, Y Tŷ Model, Llantrisant, RhCT CF72 8EB
☎01443 226386 Ffacs 01443 239327 e✉
huwthomasdavies@menteriaith.net
neu
Adela Smith, Adran Dechnoleg Gwybodaeth,
Coleg Pontypridd, Teras Ynys, Pontypridd, RhCT CF37 5RN
☎01443 663089 Ffacs 01443 663028
e✉A.Smith@pontypridd.ac.uk

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Pat Edmunds

Genedigaeth
Estynnwn ein llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Lyn a Mike West, Nant Celyn ar enedigaeth eu hail fab Iwan, brawd bach Tomos Llwyd. Dwi'n siwr bydd croeso mawr cynnes yn disgwyl y ddau pan ddaw'r ddau adre o'r ysbyty.

Symud Tŷ
Dymunwn yn dda i Ann Davies a'r teulu sy'n symud o 57, Nant Celyn i fyw yn un o'r tai newydd yn Rhydlafar. Pob lwc iddynt yn eu cartref newydd.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Howard Phillips, mab Brian Phillips, Penywaun ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty. Hefyd dymunwn yn dda a gwellhad buan i Owain Williams sydd adre yn Heol Tir Coch ar ôl torri ei fraich - mam yn ei nyrsio!

Marwolaeth
Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth Mrs Sephorah Hewitt, mam annwyl Cliff, mamgu hoffus Siôn a Carys, mam-yng-nghyfraith barchus Eifiona. Yn 96 mlwydd oed, ar ôl bywyd llawn a chyffrous hunodd yn dawel ar y 5ed o Fedi. Cynhaliwyd y gwasanaeth a'r traddodiant yng Nghapel yr Amlosgfa, Llwydcoed, Aberdâr ar y 12ed o Fedi.

Yn dyst i'w phoblogrwydd a'i pharch daeth nifer dda o'i ffrindiau a pherthnasau i dalu teyrnged olaf i gymeriad hoffus a diymhongar iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at chwaer Cliff a'i theulu sydd hefyd yn profi'r golled.

Blin hefyd yw cofnodi marwolaeth Mr Reuben Davies, cyn blismon o Heol y Ffynnon. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda'i wraig Eirlys a'i merch Jane.

Priodas
Dymunwn bob hapusrwydd i Geraint Spencer Thomas, Nant y Felin (cyn ddisgybl Garth Olwg ag Ysgol Gyfun Llanhari) ar ddechrau ei fywyd priodasol. Priododd Rebecca Emily Bigmore ar yr 8ed o fedi yn Eglwys St Faith's, Dorstone, Henffordd, gyda'r neithor yng Nghlwb Gwledig Allt-yr-Ynys, Henffordd. Ei ffrind ysgol Rhodri Wynn oedd y gwas priodas.

Ar ôl eu mis mêl yn Mauritius mae'r ddau yn edrych ymlaen i ymgartrefu yn un o dai newydd sbon ym Mharc Radyr sydd nepell o Gaerdydd lle mae'r ddau yn gweithio fel cyfreithwyr. Lwc da i'r ddau.

Croeso
Croeso i Mrs Enid Arfon Jones, Blaengwawr, Cwm Cynon, i Efail Isaf. Mae hi a'i merch Eiry wedi ymgartrefu ym Mharc Nant Celyn.

Capel Tabernacl
Tach 4 - Parch Eirian Rees (Cymun)
Tach 11- Sul y Cofio (Ysgol Plasmawr)
Tach 18 - Parch Eirian Rees
Tach 25 - Parch Gwyn Richards (Dolgellau)

SUL Y COFIO
SUL HEDDWCH

Ble: Ysgol Plasmawr, Y Tyllgoed, Caerdydd
Pryd: Tachwedd11, am 10 y bore hyd amser cinio
Beth: Datblygu'r Thema "BYW YNGHYD"

Gweithdai i Gynnwys:
Gwrthdaro - achosion
Byw gyda Dieithriaid
Cymod
Cyfrifoldeb yr Unigolyn

Trefnir y rhaglen gan Gapel Tabernacl, Efail Isaf
Ar gael -
Meithrinfa i blant bach
Darpariaeth i blant yr Ysgol Sul yn cynnwys clown, gwaith llaw a rhaglen lawn
Gweithgareddau arbennig ar gyfer yr arddegau
Lluniaeth ysgafn

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Croeso Cynnes
Teleri a Glyn Jones! Braf estyn croeso'r Tafod i deulu bach sy newydd symud i 25, Maes y Nant, Creigiau. Daw Teleri yn wreiddiol o Aberystwyth a Glyn o Gapel Bangor. Mae `na drydydd aelod o'r teulu, sef Daniel Calan sy'n ddeng mis oed, ac yn `fishi', meddai `i fam! Tipyn o gymeriad yw Daniel Calan! Swyddog Addysg Defnyddwyr, gyda Chyngor Defnyddwyr Cymru yw Teleri ac mae Glyn yn Syrfeiwr Adeiladau Siartredig, yn gweithio i gwmni Ball & Co., Ffynnon Taf. Maent yn edrych yn gartrefol iawn yma a gobeithio y gwnânt fwynhau'r gwmnïaeth gynnes sydd yn yr ardal hon.

Dal i wella
Da gweld bod Lynne Abel yn dal i wella. Mae hi wedi cael triniaeth arw dros y cyfnod diweddar yma ond mae'n dda nodi ei bod hi'n dal i wella. Ein cofion atat, Lynne.

Rygbi leuenctid Pentyrch

Tîm Clwb Rygbi Pentyrch. Morgan Rhys - ail o'r dde, ail res. Kyle Jonson - ar y chwith yn yr ail res. Dylan Jones - chweched o'r chwith, ail res.

Llongyfarchiadau i ddau chwaraewr rygbi ifanc o Glwb Pentyrch gafodd eu dewis i chwarae i ysgolion Caerdydd yn erbyn ysgolion Abertawe cyn y gêm fawr nos Sadwrn 22 Medi rhwng y ddwy ddinas ar Barc yr Arfau. Enillwyd y gêm 32 - 0 o bedwar cais i ddim i ddangos y ffordd i'r chwaraewyr hŷn. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i Morgan Rhys Williams, Ysgol Creigiau a Kyle Jonson, Ysgol Pentyrch i gael chwarae ar y cae enwog. Dewiswyd y ddau i garfan Ysgolion Caerdydd am y tymor yn ogystal â Dylan Jones, Ysgol Radur, a hefyd o Glwb Pentyrch. Enillodd y tîm 19 - 10 yn erbyn Ysgolion Pontypridd a 5 - 0 yn erbyn Ysgolion Penybont.

Mae gennym ddatganiad i'w wneud.....

YN GYMRAEG

Pleser gan Fanc HSBC yw cychwyn cyhoeddi cyfriflenni Cymraeg, o fis Medi 2001.

I gofrestru am y gwasanaeth Cymraeg hwn, ewch i'ch cangen leol neu ffoniwch 08457 030304.

HSBC

EICH BYD O WASANAETHAU ARIANNOL

YSGOL GARTH OLWG

DATHLU'R CYNHAEAF
Bu cryn brysurdeb yn ystod yr wythnos cyn hanner tymor, wrth gynnal yr amrywiol weithgareddau ac ymweliadau cymunedol i ddathlu'r cynhaeaf. Y siaradwr gwadd yn y ddau wasanaeth eleni oedd Parch Peter Cutts, gweinidog Salem Tonteg. Dosbarthwyd cynnyrch y cynhaeaf, a dderbyniwyd trwy haelioni a charedigrwydd rhieni, i'r henoed trwy gydweithrediad Canolfan Gymunedol Beddau. Bu plant o wahanol ddosbarthiadau ar ymweliadau cymunedol â Chartref yr Henoed yn Llanilltud Faerdref. Fe fydd plant Blwyddyn 6 yn cyfnewid ymweliadau ag Ysgol Tŷ Coch yn ystod mis Tachwedd.

MYFYRWYR
Pleser yw croesawu Kate Thomas a Gemma Davies atom am gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn ysgol - y ddwy yn fyfyrwyr yn UWIC.

PÊL DROED A RYGBI
Bu cryn gyffro tuag at ddiwedd hanner cyntaf y tymor wrth i'r gemau pêl droed a rygbi ail gychwyn, gyda'r bechgyn yn profi llwyddiant o 14 - 7 yn eu gem rygbi cystadleuol gyntaf o'r tymor. Llongyfarchiadau i Gethin Palmer a Matthew Rees, y ddau o Flwyddyn 6, ar gael eu dewis yn rhan o dîm dan 11 oed Tref Pontypridd.

ATHLETAU DAN DO
Achlysur o fwynhad hefyd oedd y cystadlaethau dan do y bu tîm o ferched a bechgyn o Flwyddyn 6 yn rhan ohono yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON
Yn dilyn ffurfio pwyllgor newydd yn ystod y Cyfarfod Blynyddol ym mis Hydref, bwriwyd ymlaen yn syth i drefnu rhaglen o weithgareddau am y flwyddyn gan ddechrau gyda'r arddangosfa Tân Gwyllt ar gae'r ysgol ar Nos Sadwrn, Tachwedd 3ydd. Tocynnau - Oedolion £3. Plant £1.(Manylion o'r ysgol: 202585).



PENWYTHNOS LLANGRANNOG YR URDD
Cyffrous a blinedig, a dweud y lleiaf, oedd Penwythnos Llangrannog yn ystod mis Hydref. Da deall fod y 42 o blant a aeth wedi llwyr fwynhau eu hunain a llawer iawn o ddiolch i Llyr Meredith, Enfys Griffiths a Lesley Jones am fod mor barod i dreulio eu penwythnos yn gwarchod yn Llangrannog.

YMWELIADAU ADDYSGOL
Bu dau ymweliad addysgol yn fuddiol a gwerthfawr yn ddiweddar. Un i Siop tesco yn y Bâd Uchaf gan Flwyddyn 5/6 - yn bennaf i astudio'r broses o bobi'r amrywiol fara; ac un i eglwys St Illtyd, Pentre'r Eglwys gan blant Blwyddyn 4/5 - fel rhan o'r astudiaethau hanes lleol.

GWEITHDY DRAMA
Diolch o galon i Dawn Williams a Rhian Grundy am dreulio'r diwrnod yn yr ysgol yn ddiweddar, yn cynnal cyfres o weithdai drama i blant Blwyddyn 1 i Blwyddyn 6.

Yn dilyn 4 blynedd yn ymladd afiechyd, 2001 yw'r flwyddyn y mae Siwsann George yn ail-gydio yn yr awenau a'i lle blaenllaw ym myd canu gwerin Cymru.

Wedi ei geni yn Nhreherbert, Rhondda, teithiodd led led y byd gyda'i grwpiau gwerin MABSANT a SGWRS, (Sioe Gymreig Werinol Siwsann) yn ymchwilio ac yn hybu cerddoriaeth Gymreig ar lwyfannau, radio a theledu. Y mae ei CD unigol "Caneuon Traddodiadol Cymru" (Saydisc & Past Times) wedi gwerthu'n fwy na recordiadau eraill o'i math (19,000 copi), a chlywir traciau ohoni ar Polydor Japan. Mae CD newydd ar y gweill, ynghyd â gweithdai canu a chyngherddau. Mae recordiadau cynnar ohoni'n cael eu hel erbyn hyn gan ffans y don newydd o fandiau byd enwog Cymru.

Mae Siwsann yn ymuno â deuawd Cymreig-Americanaidd, Bel Fargo ar achlysuron a gwyliau arbennig, sef Roger Plater a chyd-chwaraewr Bonnie Tyler, Gary Waghorn, a sefydlwyd i berfformio cerddoriaeth offerynnol a thraddodiadol Cymru (acordion, clarinet a recorder Roger) gydag arddull banjo gwefreiddiol Gary, ynghyd â'i gitar roc a'i ganeuon. Mae SGWRS (Sioe Gymreig Werinol Siwsann) wedi ennill clod am eu rhaglenni hyblyg o adloniant ar gyfer seremoniau llwyddiant Busnes a'r Gyrnuned. Bydd cyfle i'w chlywed o Hydref 2001 ar CD newydd "Goreuon Mabsant"(Sain)

Am wybodaeth pellach cysyllter a: Siwsann neu Roger, 26 Bassett St. ABERCYNON CF45 4SP Ffôn: 01443 742370.

Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl:
8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn
BT
Ffoniwch heddiw
i ofyn am rif, ffoniwch 192.
Gofynnwch am rywun sy'n siarad Cymraeg
BT bob tro 0800 800 288
Defnyddiwch eich Cymraeg

Y CNAFON BACH A MAWR!

Mae rhai yn ddireidus ac yn ddoniol, eraill yn hyll, heglog a thwp ac mae'n nhw i gyd yn byw ymysg ei gilydd yn y goedwig hud. Am bwy ydw i'n sôn? Wel, y Cnafon Coed wrth gwrs, sef cymeriadau cartŵn newydd fydd yn cychwyn ar S4C ym mis Tachwedd am 5.00 o'r gloch ar slot Planed Plant.

Dros y mis nesaf bydd cyfle i weld y pedair pennod gyntaf o'r gyfres animeiddiedig hon sy'n rhoi darlun lliwgar o anturiaethau y Cnafon, sef ellyll o bob lliw a llun sy'n trigo yn y goedwig. A byddwch wrth eich boddau yn cyfarfod cymeriadau fel Snafedd, Twmi a Wili Wi. Cnaf sy'n ffansio ei hun fel dipyn o arweinydd ac sydd wastad yn llawn castiau yw Snafedd, tra bo Wili Wi yn gnaf bach iawn sy'n byw o dan het Snafedd. Un braidd yn dwp a diniwed yw Twmi ond mae'n ffrind ffyddlon iawn i Snafedd.

Ymysg y cnafon mawr mae Siarli-Donc, Twrw Bol a Gwefus Glop ac mae'r rhain yn gallu trawsnewid eu hunain yn goed a cherrig pan fo 'r angen. Un o 'r pethau sy'n codi'r ofn mwyaf ar y cnafon ydi Dynols, sef pobl fel chi a fi, ac os yw Dynol yn gweld cnaf ac yn gwrthod credu ei lygaid yna mae'r cnaf yn diflannu! Ond os bydd fyth angen cymorth ar y cnafon gallent droi at Rhagwrach, y wrach ddoeth sy'n llawn o swynion i'w helpu, sy'n gysur calon pan fo'r cnafon fyth a beunydd dan fygythiad gan lwyth y Wit-Wats sy'n eu hela am eu cynffonnau.

Cofiwch Planed Plant ar S4C am 5.00

Aethoch chi i weld sioe gerdd Ysgol Rhydfelen?
Dyma rhai o'r golygfeydd

www.s4c.co.uk

Cyfraith Duw Neu Gyfraith Dyn?

Y STAFELL DDIRGEL

Cyfres ddrama wedi'i seilio ar nofel Marion Eames

8.30PM
BOB NOS SUL
YN CYCHWYN 16 TACHWEDD

TRANSLB88/889

DRAMA **NEWYDD**

S4C